# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## CBAC Iechyd a Gofal Cymdeithasol UG Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol Safon Uwch newydd yn cynnig profiad dysgu cyfannol, gyda'r cyfle i ddysgu am ddatblygiad a gofal unigolion trwy gydol eu hoes o genhedlu hyd at fod yn oedolion hyn.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...ydych eisiau gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol

...ydych eisiau ennill gwybodaeth ymarferol a damcaniaethol

...hoffech ddilyn llwybrau Safon Uwch Meddygaeth, Gwyddorau Cymdeithasol, y Gyfraith neu Ddyniaethau.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Ar y cymhwyster poblogaidd hwn, byddwch yn astudio pedair uned ac yn cael eich asesu trwy

waith cwrs ac arholiadau allanol.

Gallai'r unedau gynnwys:

Hyrwyddo gofal a chyfathrebu o safon
Hyrwyddo iechyd a lles da
Cefnogi iechyd, lles a gwydnwch yng Nghymru
Safbwyntiau damcaniaethol ar ymddygiad oedolion
Safbwyntiau damcaniaethol ar ymddygiad plant a phobl ifanc
Cefnogi oedolion i gynnal eu hiechyd, eu lles a'u gwydnwch

Pan fyddwch yn cwblhau'r cwrs, byddwch yn cyflawni:

Iechyd a Gofal Cymdeithasol UG/U Lefel 3 - manyleb newydd CBAC

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen i chi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg a Mathemateg/Rhifedd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae'r cwrs hwn yn cynnig sylfaen addas ar gyfer cyflogaeth yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol mewn cyd-destun mwy cyffredinol, yn ogystal ag ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol yn y brifysgol.